



Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19 - Diwygiad

23 Ionawr 2020
SFR 119/2019(R)

Diwygiadau i ganlyniadau Arholiad 2018/19 mewn ysgolion yng Nghymru

Cyhoeddwyd ystadegau ar gyfer 2018/19 gyntaf ar 4 Rhagfyr 2019. Ar ôl ei gyhoeddi, nodwyd mater wrth gyfrifo'r sgôr pwyntiau Capio 9 (fersiwn y mesur interim), y mesurau lefel pwnc CA4, a chanran y disgyblion 17 oed sy'n dechrau o leiaf 2 Safon Uwch neu gyfwerth cyflawni 3 gradd A * -A a 3 gradd A * -C. Mae rhifau diwygiedig wedi'u marcio ag (r) neu (rr). Gweler y [Nodiadau](#) (tudalen 15) am wybodaeth bellach.

Newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn Mesurau perfformiad ar gyfer Blwyddyn 11

Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd ar gyfer 2018/19. Mae'r mesurau hyn bellach yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau ac yn trosi pob gradd a gyflawnir yn sgôr pwyntiau (gweler Diffiniadau). Y mesurau yw:

- Sgôr pwyntiau Capio 9 (fersiwn y mesur interim, gweler isod)
- Mesur llythrennedd: y cymhwyster gorau y mae disgybl wedi'i gyflawni o ran TGAU Iaith neu Lythrennedd (Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg)
- Mesur rhifedd: y cymhwyster gorau o blith cymwysterau TGAU Mathemateg neu Fathemateg - Rhifedd.
- Mesur gwyddoniaeth: mae'n defnyddio'r cymhwyster sengl gorau o blith cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth (yn achos cymhwyster TGAU dwbl, caiff y radd uchaf ei chyfrif).
- Tystysgrif Her Sgiliau: rhan o Fagloriaeth Cymru y gellir ei chymryd ar Lefel Sylfaen neu Genedlaethol

I gael rhagor o wybodaeth am y broses o gyflwyno'r mesurau newydd hyn, gweler y ddogfen ganllaw [Trefniadau Perfformiad Ysgol Interim Cyfnod Allweddol 4: Mesurau a Dadansoddiadau](#).

Newidiadau o ran cofrestradau lluosog ar gyfer Blwyddyn 11

Cyn 2018/19, defnyddiwyd canlyniad gorau pob disgybl Blwyddyn 11 ym mhob pwnc i lunio mesurau perfformiad. O 2018/19, defnyddir y cofrestriad cyntaf ym mhob pwnc yn lle hynny, hyd yn oed os cafwyd gradd uwch mewn unrhyw arholiadau a gafodd eu hailsefyll. Bydd hyn yn effeithio ar y gallu i gymharu'r data â blynyddoedd blaenorol. Gweler tudalen 8 sy'n rhoi syniad o effaith y newid hwn.

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r Datganiad Ystadegol hwn yn rhoi dadansoddiad o'r arholiadau allanol a safwyd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 (CA4; 15 oed) neu ddisgyblion chweched dosbarth (17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd) mewn ysgolion yng Nghymru yn 2018/19 ac yn ystod blynyddoedd blaenorol. I gael rhagor o ddata a dadansoddiad manylach, gweler y [tablau ategol](#).

Yn y datganiad hwn Disgyblion Blwyddyn 11 (CA4)

Prif ddangosyddion	2
Awdurdodau Lleol	7
Perfformiad pwnc	8
Prydau Ysgol am Ddim	9
Disgyblion 17 oed (chweched dosbarth)	
Prif ddangosyddion	10
Awdurdodau Lleol	11
Perfformiad pwnc	12
Atodiad	
Diffiniadau	13
Nodiadau	15

Sgôr pwyntiau Capiro 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r mesur Capiro 9 wedi'i newid ers y llynedd. Bellach, ceir llai o ofynion pwnc-benodol. Mae'r mesur yn dal i gynnwys y naw cymhwyster TGAU gorau neu'r gyfres gyfatebol o gymwysterau, ond nawr dim ond tri o'r naw slot sy'n cwmpasu pynciau TGAU penodol, i lawr o bump mewn blynyddoedd blaenorol. Y pynciau penodol hyn yw Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf neu Lenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg neu Rifedd a Gwyddoniaeth.

Sgôr pwyntiau Capiro 9 yw un o Brif Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r sgôr pwyntiau Capiro 9 (fersiwn y mesur interim), dylid gochel wrth gymharu'r sgoriau hyn â sgoriau Capiro 9 blaenorol. Mae dadansoddiad o'r sgôr Capiro 9 hon (fersiwn y mesur interim) ac esboniad o'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn yn y [ddogfen ganllaw](#) hon.

Nid yw prif fesurau perfformiad disgyblion 17 oed (chweched dosbarth) wedi newid ers y llynedd.

1. Canlyniadau allweddol ar gyfer 2018/19

Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

- Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Llythrennedd yw 39.0, y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Rhifedd yw 37.2 (rr) a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Gwyddoniaeth yw 36.8.
- Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yw 36.4.
- Y sgôr pwyntiau cyfartalog Capiro 9 (fersiwn y mesur interim) yw 354.4 (rr).
- Perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob un o'r pum dangosydd hyn, ac roedd gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sgôr gyfartalog is na'r rhai nad oeddent yn gymwys i'w cael.
- Cyflawnodd 53.8 y cant o ddisgyblion 5 cymhwyster TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) gradd A*-C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg (trothwy Lefel 2 cynhwysol).

Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (chweched dosbarth)

Cofrestrodd 9,148 o ddisgyblion (89.4 y cant) ar gyfer cyfres o gymwysterau a oedd yn cyfateb i 2 gymhwyster Safon Uwch. O'r rheini:

- Cyflawnodd 97.9 y cant 2 radd A*-E Safon Uwch (trothwy Lefel 3).
- Cyflawnodd 58.4 y cant 3 gradd A*-C Safon Uwch.
- Cyflawnodd 13.2 (r) y cant 3 gradd A*-A Safon Uwch.

2. Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

Cymariaethau â blynyddoedd blaenorol

Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd ar gyfer 2018/19. Darparwyd rhai o'r dangosyddion hyn o 2016/17 ymlaen, ond ni ddylid cymharu'r dangosyddion hyn â dangosyddion tebyg o gyhoeddiadau blaenorol.

Gwnaed newidiadau i fesurau perfformiad a chymwysterau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a all effeithio ymhellach ar gymaroldeb. Caiff y sgôr pwyntiau cyfartalog Capiro 9 (fersiwn y mesur interim) ei diffinio'r wahanol i'r sgôr pwyntiau capio 9 a ddefnyddiwyd yn ystod

(r) Ffigurau wedi'u diwygio (19/12/19)

(rr) Ffigurau wedi'u diwygio (22/01/20)

blynyddoedd blaenorol ac ni ellir eu cymharu. Cyflwynwyd Tystysgrif Her Sgiliau newydd yn 2016/17, felly dim ond hyd at y pwynt hwnnw y dylid cymharu mesur y Dystysgrif Her Sgiliau. Yn yr un modd, dim ond cymwysterau TGAU yng Ngwyddoniaeth sydd yn cyfri tuag at y mesur o 2017/18 ymlaen ac felly dylid gochel wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gellir cymharu'r mesurau Llythrennedd a Rhifedd dros gyfnod hwy.

O 2018/19, dim ond canlyniadau'r dyfarniad cyntaf ar gyfer cymhwyster a gwblheir (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) a fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad. Mae'r newid hwn yn annog ysgolion i gofrestru dysgwyr pan fyddant yn hyderus eu bod yn barod i gyflawni'r canlyniad gorau posibl. Nid yw'n atal dysgwyr rhag ailsefyll os bydd ysgol neu ddysgwr yn awyddus i wella ei chanlyniadau neu ei ganlyniadau, ond ni fyddai'r ail ganlyniad hwn yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad CA4, hyd yn oed pe bai'r canlyniad yn uwch.

Dengys y tabl isod effaith y newid hwn ar ganlyniadau eleni.

Mesur	<u>Sgôr pwyntiau</u> <u>â'r cofrestriad</u> <u>cyntaf</u>	<u>Sgôr pwyntiau</u> <u>â'r cofrestriad</u> <u>gorau</u>	<u>Gwahaniaeth</u> <u>(sgôr</u> <u>pwyntiau)</u>
Llythrennedd	39.0	39.1(rr)	-0.1(rr)
Rhifedd	37.2 (rr)	37.5(rr)	-0.3
Gwyddoniaeth	36.8	36.8	0.0
Tystysgrif Her Sgiliau	36.4	36.4	0.0

Nid yw'n bosibl mesur effaith y newidiadau mewn polisi ar ddewisiadau disgyblion ac ysgolion ynghylch opsiynau'r cwricwlwm a chofrestradau. Felly, dylid gochel wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Sgôr pwyntiau Capió 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r sgôr pwyntiau Capió 9 wreiddiol, a gyflwynwyd yn 2016/17, yn canolbwyntio ar naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Rhaid i'r sgôr Capió 9 (fersiwn y mesur interim) a gyflwynwyd yn 2018/19 gynnwys cymwysterau TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf neu Lenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg neu Rifedd, a Gwyddoniaeth.



Fel canllaw, mae gradd A* TGAU yn werth 58 o bwyntiau, mae gradd A yn werth 52 o bwyntiau, mae gradd C yn werth 40 o bwyntiau ac ati. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog Capió 9 (fersiwn y mesur interim) eleni ychydig yn is na'r hyn sy'n cyfateb i 9 gradd C (360 o bwyntiau). Gweler Diffiniadau i gael dadansoddiad llawn o'r pwyntiau yn ôl gradd.

Mesur tystysgrif her sgiliau

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n rhan allweddol o Fagloriaeth Cymru, ar gael i ddysgwyr ar Lefel Sylfaen 1 neu Lefel Genedlaethol 2. Rhoddir graddau A-C ar gyfer Lefel Genedlaethol 2, ac fe'u trosir i'r un sgoriau pwyntiau â'r mesurau pwnc, gyda 52 o bwyntiau ar gyfer A a 40 o bwyntiau ar gyfer C. Rhoddir dyfarniad Llwyddo* a Llwyddo ar gyfer Lefel Sylfaen 1, ac fe'u trosir yn sgoriau pwyntiau o 31 a 22. Mae hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r mesur hwn â'r tri mesur perfformiad pwnc.



Mesurau perfformiad pwnc (sgoriau pwyntiau cyfartalog)



Cyflawnodd y disgyblion sgôr pwyntiau uwch mewn Llythrennedd a Rhifedd o gymharu â Gwyddoniaeth.

Mae'r prif fesurau yn dangos y sgôr gyfartalog ar gyfer pob disgybl sydd wedi'i gynnwys ledled Cymru. Ar gyfer y mesurau Llythrennedd, Rhifedd a Gwyddoniaeth, y sgôr pwyntiau cyfartalog uchaf posibl yw 58 o bwyntiau, a hynny os yw pob disgybl yn cyflawni gradd A*. Y sgôr pwyntiau cyfartalog isaf yw 16 o bwyntiau, a hynny os yw pob disgybl yn cyflawni gradd G. Byddai pob un o'r tri mesur yn cyfateb, fwy neu lai, i ychydig o dan radd C (40 o bwyntiau). Noder, mae'r ffigurau hyn yn dangos y sgoriau cyfartalog ar gyfer pob disgybl yng Nghymru. Bydd rhai disgyblion yn perfformio'n well na hyn a rhai yn perfformio'n waeth. Nid yw hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cyflawni gradd D yn y pwnc perthnasol.




Roedd perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn y tri dangosydd, gan sgorio cyfartaledd o 3.2 pwynt yn uwch na bechgyn



Roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn Gwyddoniaeth, gyda gwahaniaeth o 5.5 pwynt, ac roedd y gwahaniaeth lleiaf mewn Rhifedd, gyda gwahaniaeth o 1.4 pwynt

Siart 1: Sgoriau pwyntiau pwnc-benodol cyfartalog yn ôl disgyblion Blwyddyn 11 (rr)




Mae'r llinellau toredig yn nodi newid o'r cofrestriad gorau yn cael ei gyfrif i'r cofrestriad cyntaf yn cael ei gyfrif. Ni ddylid cymharu data a gasglwyd cyn y pwynt hwn ac ar ôl hynny.

Yn 2018/19, y pwnc y perfformiodd disgyblion Blwyddyn 11 orau ynddo oedd Llythrennedd, gyda sgôr o 39.0 o bwyntiau ar gyfartaledd. Y pwnc y perfformiodd y disgyblion waethaf ynddo oedd Gwyddoniaeth, gyda sgôr o 36.8 o bwyntiau.

Dangosyddion eraill

Mae gwneud cymariaethau â pherfformiad cyn 2016/17 yn anodd oherwydd newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y dangosyddion eu cyfrif. Gweler Diffiniadau (tudalen 7) am ragor o wybodaeth

Siart 2: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni trothwyon gwahanol



Mae'r llinellau toredig yn nodi newid yn y diffiniad. Ni ddylid cymharu data a gasglwyd cyn y pwyntiau hyn ac ar ôl hynny.




Cyflawnodd **59.0%** o ferched 5 TGAU gradd A*-C (gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg) o gymharu â **48.9%** o fechgyn



Canran y disgyblion a gyflawnodd y trothwy lefel 2 cynhwysol (5 cymhwyster TGAU gradd A*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg, gweler Nodiadau am ragor o fanylion) oedd 53.8 y cant. Parhaodd merched i berfformio'n well na bechgyn yn CA4; roedd y bwll rhwng y rhywiau o ran trothwy lefel 2 cynhwysol yn 10.1 pwynt canran. Roedd y bwll hwn wedi tyfu o 9.5 pwynt canran yn 2017/18.

Y Gymraeg


Siart 3: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Llenyddiaeth Gymraeg



Cynyddodd canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf yn raddol o 15.3 y cant yn 2012/13 i 17.3 y cant yn 2017/18, ond mae wedi gostwng ychydig i 17.2 y cant yn 2018/19. Mae nifer y cofrestrïadau ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg wedi cynyddu ers 2013/14 i 11.7 y cant yn 2018/19.

Awdurdodau Lleol

Siart 4: Y sgôr pwyntiau cyfartalog Capio 9 (fersiwn y mesur interim) yn ôl rhanbarth ac Awdurdod Lleol, 2018/19 (r) (rr)




Yn 2018/19, Canol De Cymru oedd y rhanbarth â'r sgôr pwyntiau cyfartalog Capio 9 uchaf (fersiwn y mesur interim) gyda 362.3(r) o bwyntiau, a De-ddwyrain Cymru oedd y rhanbarth â'r sgôr isaf gyda 345.2 o bwyntiau.

Yr Awdurdod Lleol â'r sgôr pwyntiau cyfartalog Capio 9 uchaf (fersiwn y mesur interim) oedd Ceredigion gyda 382.5(r) o bwyntiau. Yr Awdurdod Lleol â'r sgôr isaf oedd Merthyr Tudful gyda 313.4 o bwyntiau.

(r) Ffigurau wedi'u diwygio (19/12/19)

(rr) Ffigurau wedi'u diwygio (22/01/20)

Siart 5: Y nifer fwyaf o gofrestriadau ar gyfer pynciau TGAU a chanran gyfatebol y graddau A*-C, 2018/19



Roedd cyfanswm o 282,119 o gofrestriadau TGAU yn 2017/18, 65.1% yn radd A*-C

Y pynciau TGAU â'r nifer fwyaf o gofrestriadau yw Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth (noder bod dyfarniadau dwbl yn cael eu cyfrif fel dau gofrestriad TGAU ar wahân).

Y pynciau TGAU mwyaf poblogaidd ar ôl yr uchod yw Cymraeg Ail Iaith ac Astudiaethau Crefyddol gyda 20,270 a 10,198 o gofrestriadau, yn y drefn honno.


Yn 2018/19, rhoddwyd graddau A*-C ar gyfer rhwng 89.8 a 91.0 y cant o gofrestriadau TGAU mewn Cemeg, Ffiseg a Gwyddorau Biolegol.

Mae data llawn ar bob pwnc unigol ar gael yn y [tablau ategol](#).


Prydau Ysgol am Ddim

Mae disgyblion yn [gymwys i gael prydau ysgol am ddim](#) os yw eu teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau/taliadau cymorth neu gredyd cynhwysol. Mae Siart 5 yn dangos maint y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael.


Siart 6a: Sgoriau pwyntiau pwnc-benodol cyfartallog yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim, 2018/19 yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (rr)



Siart 6b: Sgôr pwyntiau Capió 9 (fersiwn y mesur interim) yn ôl statws Prydau Ysgol am Ddim, 2018/19 yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (rr)



Mae disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael canlyniadau gwell na'u cyfoedion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a hynny'n gyson. Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael ar ei fwyaf ar gyfer Gwyddoniaeth ac ar ei leiaf ar gyfer Llythrennedd.




I gael gwybodaeth fanylach am fesurau perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gweler y [tablau ategol](#).

3. Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol mewn ysgolion (chweched dosbarth)


Prif ddangosyddion

Siart 7: Canran y disgyblion 17 oed sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 3



O'r disgyblion hynny a safodd ddau gymhwyster Safon Uwch neu fwy, mae'r ganran a gyflawnodd 2 radd A*-E (trothwy Lefel 3, gweler Nodiadau am ragor o fanylion) yn 2017/18 wedi cynyddu 0.4 pwynt canran o gymharu â'r llynedd.

Siart 8: Canran y disgyblion 17 oed sy'n cyflawni trothwyon gradd Safon Uwch gwahanol (r)



Cyflawnodd 64.1% o ferched 3 Safon Uwch gradd A*-C o gymharu â 51.1%(r) o fechgyn

Cyflawnodd 14.5%(r) o ferched 3 Safon Uwch gradd A*-A o gymharu â 11.7%(r) o fechgyn



Mae canran y disgyblion mewn ysgolion sy'n cyflawni 3 gradd A*-C mewn pynciau Safon Uwch (neu bynciau cyfatebol) wedi cynyddu 0.4% o gymharu â 2017/18. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni 3 gradd A*-A hefyd wedi gostwng 0.2%(r) ers 2017/18.


Roedd merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y chweched dosbarth; fodd bynnag, mae'r bwch hwn yn llai ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'n dda (3 gradd A*-A).

Nid yw'r ffigurau yn cynnwys dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

(r) Ffigurau wedi'u diwygio (19/12/19)

Awdurdodau Lleol

Siart 9: Canran y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cyfres sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch neu fwy ac sy'n cyflawni 3 gradd A*-C Safon Uwch (neu raddau cyfatebol) yn ôl rhanbarth ac Awdurdod Lleol, 2018/19 (r)



Yn 2018/19, Gogledd Cymru oedd y rhanbarth â'r ganran uchaf o ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd ar gyfer cyfres sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*-C, gyda 60.0 y cant. Ar y llaw arall, De-ddwyrain Cymru oedd â'r ganran isaf, sef 53.6 y cant.



Wrecsam a Caerdydd oedd yr Awdurdod Lleol â'r ganran uchaf o ddisgyblion 17 oed a gofrestrodd ar gyfer cyfres sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*-C, gyda 66.7 y cant. Torfaen oedd â'r ganran isaf, gyda 37.4 y cant. Noder, nid oes chweched dosbarth mewn unrhyw ysgolion ym Mlaenau Gwent neu Ferthyr Tudful.

Ar gyfer y rhai sy'n cyflawni orau (yn cyflawni 3 gradd A*-A), Caerdydd oedd â'r ganran uchaf, sef 19.7(r) y cant o ddisgyblion. Caerffili a Thorfaen oedd â'r ganran leiaf, sef 7.3 y cant.

(r) Ffigurau wedi'u diwygio (19/12/19)

Perfformiad pwnc

Siart 10: Y nifer fwyaf o gofrestriadau ar gyfer y pynciau Safon Uwch mwyaf poblogaidd a chanran gyfatebol y graddau A*-C, 2017/18



Y pwnc Safon Uwch mwyaf poblogaidd yng Nghymru oedd Mathemateg, gyda 2,111 o gofrestriadau yn 2018/19. Mathemateg oedd un o'r pynciau Safon Uwch â'r gyfradd uchaf o raddau A*-C hefyd, ac roedd 80.5 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r graddau hyn.

Hanes ac Almaeneg oedd dau o'r pynciau a rhoddwyd y nifer fwyaf o raddau A*-C ar eu cyfer yn 2017/18, gyda 91.1 y cant ac 89.8 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r graddau, yn y drefn honno. Ar y llaw arall, TGCh oedd â'r gyfran isaf o raddau A*-C, sef 55.1 y cant.

Mae data llawn ar yr holl bynciau sydd ar gael a'r graddau cyfatebol a roddwyd ar gyfer y pynciau hynny yn y [tablau ategol](#).

4. Diffiniadau

Nifer Cyfartalog

Drwy gydol y ddogfen hon, mae unrhyw gyfeiriad at nifer cyfartalog yn cyfeirio at y cymedr.

Newidiadau o ran cofrestrïadau lluosog

O 2018/19, pan gaiff disgybl ei gofrestru ar gyfer cymhwyster fwy nag unwaith, dim ond canlyniad y cofrestrïad cyntaf (yn gronolegol) gaiff ei gyfrif yn ein dangosyddion perfformiad CA4, pa un a yw'r radd a gyflawnir ar gyfer cofrestrïad hwyrach yn uwch ai peidio. Cyn 2018/19, defnyddiwyd y canlyniad gorau ar gyfer pob disgybl ym mhob pwnc i lunio mesurau perfformiad.

Nid yw'r newid hwn yn gymwys i'r chweched dosbarth.

Disgyblion Blwyddyn 11 (Cyfnod Allweddol 4)

Y sgôr capio 9 (fersiwn y mesur interim)

Mae'r sgôr pwyntiau hon yn canolbwyntio ar naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11 o'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys gofynion pwnc-benodol. Ar gyfer 2018/19, mae hyn yn cynnwys un o blith Saesneg neu Gymraeg (laith neu Llenyddiaeth), Mathemateg neu Fathemateg Rhifedd ac un TGAU Gwyddoniaeth. [Mae dadansoddiad o'r sgôr Capio 9 hon ac esboniad o'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur hwn ar gael.](#)

Sgoriau pwyntiau cyfatebol ar gyfer graddau

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r sgôr pwyntiau ar gyfer gradd a gyflawnir mewn TGAU cyfres 1, a ddefnyddir i gyfrifo'r Sgoriau Pwyntiau Pwnc-benodol a'r sgôr pwyntiau Capio 9.

Gradd	Sgôr pwyntiau	Gradd	Sgôr pwyntiau
A*	58	D	34
A	52	E	28
B	46	F	22
C	40	G	16

Mesur llythrennedd

Y radd TGAU orau un o blith Saesneg laith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg laith Gyntaf a Llenyddiaeth Gymraeg.

Mesur rhifedd

Y radd TGAU orau un o blith Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd.

Mesur gwyddoniaeth

Y radd TGAU orau un o blith Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl). Dyfernir dwy radd TGAU i ddisgyblion ar gyfer dyfarniad dwbl. Ar gyfer y mesur hwn, byddwn yn defnyddio'r radd orau o'r ddwy.

Lefel 1

5 cymhwyster TGAU (neu gymwysterau cyfatebol) gradd A*-G.

Lefel 2 cynhwysol

5 cymhwyster TGAU (neu gymwysterau cyfatebol) gradd A*-C gan gynnwys o leiaf un o blith Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf neu Lenyddiaeth Gymraeg, a Mathemateg neu Rifedd. Mae'r cymwysterau llenyddiaeth wedi'u hychwanegu'n ôl-weithredol at y mesur ar gyfer 2016/17 a 2017/18.

5 A*-A

5 cymhwyster TGAU (neu gymwysterau cyfatebol) gradd A*-A.

Disgyblion 17 oed (chweched dosbarth)

Lefel 3

2 gymhwyster Safon Uwch (neu gymwysterau cyfatebol) gradd A*-E fel canran o'r rhai sy'n cofrestru ar gyfer 2 gymhwyster Safon Uwch neu fwy.

3 A*-C

3 gradd A*-C ar lefel Safon Uwch (neu lefel gyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 gymhwyster Safon Uwch (neu gymwysterau cyfatebol).

3 A*-A

3 gradd A*-A ar lefel Safon Uwch (neu lefel gyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 gymhwyster Safon Uwch (neu gymwysterau cyfatebol).

Newidiadau a chymariaethau

Mae'r penderfyniad i gyflwyno mesurau perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth fesurau sy'n seiliedig ar drothwyon. Ni fydd yr wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol at ddibenion hunanwerthuso yn cynnwys dadansoddiadau o ganran y dysgwyr sy'n cyflawni'r canlynol mwyach: pynciau unigol, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen neu Genedlaethol, neu fesurau perfformiad sy'n seiliedig ar drothwyon (y Dangosydd Pwnc Craidd neu drothwy Lefel 2). Yr eithriadau i hyn yw'r mesurau trothwy Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1, gan fod y gofyniad i ysgolion bennu targedau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn erbyn y mesurau hyn wedi'i gadw yn y ddeddfwriaeth ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19. Er mwyn helpu ysgolion i fonitro cynnydd yn erbyn y cyfryw dargedau, mae data cyrhaeddiad Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 yn cael eu darparu o hyd, ochr yn ochr â data ar y mesurau newydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fod yn destun gweithgarwch craffu anghymesur ar sail nifer fach o fesurau perfformiad ar eu pen eu hunain. Anogir awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys mesurau perfformiad, data eraill a gwybodaeth gyd-destunol, er mwyn cefnogi ysgolion.

O 2017/18 ymlaen, yn dilyn argymhellion a wnaed gan adolygiadau annibynnol, ni fydd cymwysterau Gwyddoniaeth galwedigaethol yn cyfrif mwyach tuag at elfen Gwyddoniaeth graidd mesurau perfformiad. Mae hyn yn gymwys i'r sgôr pwyntiau capio 9 (fersiwn y mesur interim) a'r mesur gwyddoniaeth.

O 2016/17 ymlaen, mae cap o 40% ar y cyfraniad y gall cymwysterau galwedigaethol ei wneud tuag at fesurau L1 a L2 cymhwysol. Nid yw'r cap hwn yn gymwys i unrhyw un o'r pum mesur perfformiad newydd. Mae hyn, a'r penderfyniad i ddileu cymwysterau llenyddiaeth o'r dangosyddion Saesneg a Chymraeg Iaith Gyntaf, yn golygu na ddylid cymharu ffigurau 2016/17 neu hwyrach â ffigurau o 2015/16 neu'n gynharach.

O 2015/16 ymlaen, mae'r garfan Cyfnod Allweddol 4 yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Caiff uchafswm cywerthedd o ddau gymhwyster TGAU ei gymhwyso at unrhyw gymhwyster unigol nad yw'n gymhwyster TGAU. Mae hyn yn gymwys i bob mesur perfformiad yn y datganiad hwn.

5. Nodiadau

Diwygiadau i fesurau perfformiad allweddol

Yn dilyn y canlyniadau a gyhoeddwyd ar 4ydd Rhagfyr 2019 gwelwyd bod cyfrifiad y mesurau hyn yn anghywir. Roedd gan y sgôr pwyntiau Capió 9 fater lle cafodd dyfarniadau dwbl eu blaenoriaethu'n anghywir. Roedd gan y mesurau 3 A * -A ac A * -C broblem lle cafodd cymhwyster â strwythur graddio anarferol ei achredu yn anghywir fel gradd C neu A. Gellir adnabod unrhyw ffigurau a newidiodd o ganlyniad i'r newid hwn gan (r).

Canfuwyd yn ddiweddarach nad oedd y sgôr pwyntiau Capió 9 (fersiwn y mesur interim), sgôr pwynt iau Llythrennedd, sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth wedi'u cyfrifo'n gywir. Mae hyn oherwydd bod disgyblion sy'n cyrraedd o system addysg nad oedd yn y Gymraeg/Saesneg (NEWBES) ddim wedi'u cynnwys yn rhifiadur y cyfrifiadau hyn. Gan fod y disgyblion hyn yn cael eu heithrio o ddata lefel Awdurdod Lleol, dim ond ar ddata lefel Cymru y mae hyn yn cael effaith. Gellir adnabod unrhyw ffigurau a newidiodd o ganlyniad i'r newid hwn gan (rr).

Gellir gweld manylion llawn y newidiadau yn yr adolygiad diweddaraf hwn yn y tablau isod, ond dylid nodi bod newidiadau pellach na chafodd effaith ar y ffigurau yn y cyhoeddiad hwn. Gellir gweld manylion llawn yr holl ddiwygiadau yn y [tablau atodol](#).

Newidiadau yn yr Adolygiad 22/01/20

	CA4 Sgôr pwyntiau Capio 9 (fersiwn y mesur interim)		Gwahaniaeth
	Cyhoeddwyd	Diwygiedig	
Cymru	353.9	354.4	0.5
Cymru eFSM	298.3	298.9	0.6
Cymru non eFSM	375.7	376.2	0.5

	CA4 Sgôr Pwyntiau Gwyddoniaeth		Gwahaniaeth
	Cyhoeddwyd	Revised	
Cymru eFSM	28.2	28.3	0.1

	CA4 Sgôr Pwyntiau Rhifedd		Gwahaniaeth
	Cyhoeddwyd	Diwygiedig	
Cymru	37.1	37.2	0.1
Cymru eFSM	29.4	29.5	0.1
Cymru non eFSM	39.6	39.7	0.1

Cywirdeb

Mae ysgolion nawr wedi cael y cyfle i wirio'r canlyniadau dros dro, ac wedi darparu gwybodaeth ychwanegol os yw'n briodol. Yn debyg i flynyddoedd cynt, mae'r newid ym mhob dangosydd rhwng y data dros dro a therfynol yn llai na 1 pwynt canran.

Statws ystadegau gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 a dengys gydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol i ystadegau ar ôl asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Cadarnhawyd bod yr ystadegau hyn yn parhau i fod yn Ystadegau Gwladol yn 2019 yn dilyn [gwiriad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#). [Aseswyd yr ystadegau hyn yn llawn yn erbyn y Cod Ymarfer ddiwethaf yn 2019](#).

Ers adolygiad diweddaraf y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Mae crynodeb o'r mesurau allweddol wedi'i gynnwys ar ddechrau'r cyhoeddiad, gan gynnwys esboniad manwl o'r mesurau allweddol newydd, ac mae'r mesurau hynny wedi'u gosod yn eu cyd-destun o ran graddau cyfatebol.
- Mae dadansoddiad o'r mesurau newydd yn ôl rhyw a chymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi'i gynnwys yn y datganiad a'r tablau ategol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyflwynwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys un o'r dangosyddion cenedlaethol sef y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael.

Mae gwybodaeth am ddangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, mae'n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yn:

<https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2018-i-awst-2019>

Mae rhagor o wybodaeth dechnegol ar gael yn y ddogfen nodiadau sydd hefyd ar y dudalen we canlyniadau arholiadau.

Diweddariad nesaf

Hydref 2020 (dros dro)

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0, oni nodir fel arall.

